

# Taith Gerdded Erbistog ar Afon Ddyfrdwy

Ar y daith hon byddwch yn mynd ar hyd glannau gogleddol Afon Ddyfrdwy am 2 filltir o Erbistog, wedyn yn codi l dir uwch lle ceir golygfeydd da. Mae'r daith yn 4.5 milltir o hyd, ac yn dechrau o Erbistog.

**Sut i gyrraedd yno:** o Wrecsam, ewch ar yr A525 l Farchwiel, yna trowch l'r dde gyferbyn a'r eglwys ar hyd yr A528 at Bont Owrtyn. Ychydig cyn y dafarn wrth y bont, trowch i fyny ar lon l'r dde a dilyn y ffordd am Erbistog.

Gadewch y maes parcio drwy'r giât fach bren yn y pen pellaf, a dilyn y llwybr sy'n mynd ar hyd yr afon. Dyma un o hoff fannau pysgota pysgotwyr plu. Ar eich taith, fe welwch ar yr ochr arall y bont droed dros Shell Brook. Ar ôl mynd drwy giât mochyn werdd, byddwch yn cyrraedd glan goediog ac arni gyfoeth o flodau gwyllt diddorol fel y craf gwyllt, cennin pedr a rhedyn fel tafod yr hydd, yr hesgen bendrom, clust yr ewig ymhlith lluo o rywogaethau eraill.

Os yw'n wlyb, bydd y ddaear yn fwdlyd mewn rhai mannau, felly cymerwch ofal. Byddwch yn mynd heibio i gored, ac yn cyrraedd tro amlwg yn yr afon. Croeswch dros ddwy bont droed ac ar ôl yr ail bont bydd dau lwybr o'ch blaen. Cadwch at y chwith, gan gadw'n agos at yr afon, gan fynd drwy lifddol. Ewch drwy giât mochyn werdd i mewn i'r goedwig, a dilyn y trac ac arno flociau tywodfaen, gan adael drwy giât gyda thŷ brics mawr o'ch blaen.

Cadwch at y trac yma, fydd yn troi'n lôn wedi'i selio. Trowch i lawr ar hyd rhodfa ac arni arwydd llwybr troed; enw'r tŷ yw Wyffydd Pen y Lan. Pan fydd y rhodfa'n troi am y dde, ewch yn eich blaen ar draws y glaswellt at giât mochyn o bren, ac yna ar draws tir pori; ceir golygfeydd eang iawn o'r fan hon.

Dilynwch y cyfeirbyst. Wrth goedwig, bydd y llwybr yn gwyro am y dde at fwthyn wrth ymyl nant. Anwybyddwch yr arwydd llwybr troed sy'n eich cyfeirio i'r dde, a throi i'r chwith ar hyd rhodfa darmac. Ar ôl i chi gyrraedd lôn trowch i'r dde, ac wrth y gyffordd nesaf, trowch i'r chwith. Ar ôl tua 50 metr, trowch i'r dde gan groesi camfa wrth arwyddbost.

Mae'r llwybr yn parhau dros dir pori eang (cewch olygfa dda tuag at Owrtyn o'r fan hon). Bydd giât mochyn bren yn arwain at lôn. Trowch i'r dde, ewch heibio ambell dŷ, ac wrth y gyffordd 'T', trowch i'r chwith. Ar ôl tua 70m, chwiliwch am giât fechan yn y clawdd ar y llaw dde, â "Cemetery" wedi'i nodi arni. Mae'r llwybr glaswelltlog yn mynd drwy ardd ac yn arwain at fynwent eglwys.

Ar ol cyrraedd trac wedi'i selio rydych wedi cyrraedd diwedd y daith.